OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1551

# Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

## RHAN 1

Rhagymadrodd

### Enwi, cychwyn, rhychwantu a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 16 Gorffennaf 2009 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliad y Comisiwn 1580/2007" ("*Commission Regulation 1580/2007*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1580/2007 sy'n gosod rheolau gweithredu Rheoliadau'r Cyngor (EC) Rhif 2200/96, (EC) Rhif 2201/96, ac (EC) Rhif 1182/2007 yn y sector ffrwythau a llysiau(**1**) fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

mae "cynhwysydd" ("*container*") yn cynnwys unrhyw fasged, bwced, hambwrdd, pecyn neu lestr o unrhyw fath, p'un ai a yw'n benagored neu wedi cau;

ystyr "cynnyrch garddwriaethol" ("*horticultural produce*") yw ffrwythau a llysiau a restrir yn Rhan IX o Atodiad I i Reoliad y Cyngor 1234/2007 y mae rheolau marchnata'r Gymuned yn gymwys iddynt;

mae "label" ("*label*") yn cynnwys unrhyw ddyfais i gyfleu gwybodaeth drwy nodau ysgrifenedig neu symbolau eraill, ac unrhyw nodau neu symbolau wedi eu stampio neu eu gosod fel arall yn uniongyrchol ar unrhyw gynnyrch garddwriaethol neu gynhwysydd, a dehonglir cyfeiriadau at osod label yn unol â hynny;

mae i "label ailraddio" ("*re-graded label*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 9;

mae i "label allraddio" ("*out-graded label*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 10;

mae i "label hysbysiad atal" ("*stop notice label*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 13;

mae i "label labelu diffygiol" ("*labelling defect label*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 11;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw le, cerbyd neu ôl-gerbyd, stondin, llestr, cynhwysydd, adeiledd symudol, awyren, neu hofranlong;

ystyr "rheolau marchnata'r Gymuned" ("*Community marketing rules*") yw'r safon farchnata gyffredinol a'r safonau marchnata penodol sy'n cwmpasu ffrwythau a llysiau ffres a restrir yn Rhan IX o Atodiad I i Reoliad y Cyngor 1234/2007, ac sy'n cynnwys y rheolau sy'n ymwneud

(**1**) OJ Rhif L 350, 31.12.2007, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 313/2009 (OJ Rhif L 98, 17.4.2009, t.24).

â'r safonau hynny a geir yn Erthyglau 113 ac 113a o Reoliad y Cyngor 1234/2007 ac yn Nheitl II o Reoliad y Comisiwn 1580/2007;

ystyr "Rheoliad y Cyngor 1234/2007" ("*Council Regulation 1234/2007*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin o farchnadoedd amaethyddol ac ar ddarpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodol (Rheoliad Sengl CMO)(**2**) fel y'i diwygiwyd o dro i dro;

ystyr "safonau marchnata cyffredinol" ("*general marketing standard*") yw gofynion Erthygl 113a(1) o Reoliad 1234/2007 fel y'u rhoddir yn Erthygl 2a(1) a Rhan A o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn 1580/2007;

ystyr "safonau marchnata penodol" ("*specific marketing standards*") yw'r safonau marchnata y darperir ar eu cyfer o dan Erthygl 113(1)(b) o Reoliad y Cyngor 1234/2007 fel y'u rhoddir yn Erthygl 2a(2) a Rhan B o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn 1580/2007(**3**), ac ystyr "safon farchnata benodol" ("specific marketing standard") yw un o'r safonau marchnata penodol hynny;

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw swyddog a benodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 3(3) o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "sydd dan reolaeth" ("*controlled*") mewn perthynas â chynnyrch garddwriaethol, yw fod y pŵer a roddir gan reoliad 12(1) (hysbysiad atal) wedi cael ei arfer mewn perthynas ag ef a bod yr hysbysiad atal mewn grym am y tro.

(3) Oni bai bod y rheoliad hwn yn darparu'n wahanol, mae i dermau Cymraeg a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd i'r termau Saesneg cyfatebol a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad y Cyngor 1234/2007 a Rheoliad y Comisiwn 1580/2007.

## Dynodiadau, darparu gwybodaeth, a phenodi swyddogion awdurdodedig

**3.**—(1) Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi fel y corff arolygu o dan Erthygl 8(1)(b) o Reoliad y Comisiwn 1580/2007.

(2) At ddibenion cyflawni'r rhwymedigaethau ar gyrff arolygu a geir yn rheolau marchnata'r Gymuned ac er mwyn gorfodi'r Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl fel sydd yn briodol neu os yw'n ofynnol iddynt wneud hynny, ddarparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol, i gyrff arolygu Gogledd Iwerddon a'r Alban neu i'r Comisiwn Ewropeaidd.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru benodi swyddogion at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn, y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel swyddogion awdurdodedig.

(**2**) OJ Rhif L 299, 16.11.2007, t.1, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 183/2009 (OJ Rhif L 63, 7.3.2009, t 9).
(**3**) Mae Rhan B o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn 1580/2007 yn cynnwys safonau marchnata penodol ar gyfer y cynhyrchion canlynol: afalau, ffrwythau sitraidd, ffrwythau ciwi, letus, endifau cyrliogddail a llydanddail, eirin gwlanog a nectarinau, gellyg, mefus, pupurau melys, grawnwin bwyta a thomatos.